**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 26ain Ebrill, 2016 at 10.00 am**

**PRESENT:** County Councillor P. Farley (Chairman)
County Councillor R. Harris (Vice Chairman)

County Councillors: R. Chapman, R. Edwards, P. Jordan, A. Wintle and D Hudson

Also in attendance County Councillor(s): V. Smith

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Claire Marchant | Chief Officer Social Care, Health & Housing |
| Nicola Perry | Senior Democracy Officer |
| Ian Bakewell | Housing & Regeneration Manager |
| Alan Burkitt | Policy Officer Equalities and Welsh Language |
| Karen Durrant | |
| Hazel Ilett | Scrutiny Manager |
| Nicola Needle | Changing Lives Lead |
| Owen Wilce | Programme Lead - A County That Serves |

**APOLOGIES:**

Councillors M. Hickman and P. Jones

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Datganodd Cynghorydd Sir fuddiant personol, manteisiol dan God Ymddygiad Aelodau fel Aelod Bwrdd o Adran Dai Sir Fynwy.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

Nid oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

3. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cytunwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Dethol Oedolion a gynhaliwyd ar 1af Mawrth ac fe'u llofnodwyd fel cofnod cywir gan y Cadeirydd.

Cytunwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Dethol Oedolion a gynhaliwyd ar 8fed Mawrth ac fe'u llofnodwyd fel cofnod cywir gan y Cadeirydd.

Wrth wneud hynny, nodwyd bod nifer o gamgymeriadau teipograffyddol yn sillafiad enw Mrs Hudson. Cywirwyd hyn ers hynny drwy'r system Modern.Gov. Gofynnwyd hefyd fod gofal yn cael ei gymryd i beidio â chymysgu aelodau cyfetholedig a Chynghorwyr Sir.

4. **Community Connections Befriending Scheme ~ Discussion on how the "Community Connections Befriending Scheme" is assisting people to avoid social isolation**

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 26ain Ebrill, 2016 at 10.00 am**

Rhoesom groeso i Miranda Thomson, Rheolwr, Cynllun Cyfeillio Cysylltiadau Cymunedol, a oedd yn bresennol i ddarparu gwybodaeth ar y gwasanaeth i'r Pwyllgor Dethol Oedolion.

Prosiect a ariennir gan y loteri yw'r Cynllun Cyfeillio Cysylltiadau Cymunedol i fynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol ac unigrwydd i bobl hŷn ar draws Sir Fynwy. Mae'n brosiect Canolfan Gymunedol Bridges, sefydliad elusennol annibynnol lleol wedi'i leoli yn Nhrefynwy. Mae'r cynllun yn recriwtio gwirfoddolwyr ac yn eu paru gyda phobl sy'n ynysig, gan eu cefnogi hefyd i i fynd allan i'r gymuned.

Roedd y cynllun wedi bod yn rhedeg am ?// a hanner o flynyddoedd a gyda'r grant loteri'n dirwyn i ben gwnaed cais am gyllid pellach.

Edrychodd yr Aelodau ar ffilm fer a gwahoddwyd hwy i wneud sylwadau.

**Craffu Aelodau:**

Ychwanegodd Arweinydd Newid Arferion, Newid Bywydau fod canlyniadau gweithio gyda'r cynllun Cysylltiadau Cymunedol wedi bod mor gadarnhaol yr argymhellwyd ei dreiglo i weddill yr Hybiau fel bod yr holl Sir yn elwa o'r agwedd gadarnhaol.

Gwnaeth swyddog sylw, bod manteision y cydweithredu i ni fel Cyngor wedi rhoddi i dîm Y Sir sy'n Gwasanaethu elfen o hyder yn y modd rydym yn galluogi ac yn cefnogi gwirfoddolwyr.

Datganodd y Cynghorydd Sir P. Farley fuddiant personol, manteisiol fel ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Lesiant Henoed Cas-gwent.

Gwnaeth yr Aelodau sylw fod y cynllun yn tynnu sylw at y ffaith fod nifer o bobl fregus iawn yn y Sir, a chwestiynodd a oedd gwirfoddolwyr yn ymwybodol o gefndir ac anghenion yr oedolion bregus. Mewn ymateb fe glywsom, ynglŷn â pharatoi, roedd gwirfoddolwyr wedi derbyn cwrs cynefino, gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd os yw person yn gweithio un i un gydag oedolyn bregus, roedd angen darparu geirdaon, a derbyn hyfforddiant. Cymeradwywyd yr hyfforddiant gan swyddogion Cyngor Sir Fynwy. Byddai'r hyfforddiant a'r cymorth hefyd yn cael eu mabwysiadu gan y cynllun ceir oedd ar y gweill. Byddai'n rhaid i wirfoddolwyr sy'n gyrru, fel rhan o'r cynllun cyfeillachu, ddarparu copïau o'u dogfennau ac fe roddid iddynt dempled o lythyr ar gyfer yswirwyr. Roedd therapyddion galwedigaethol wrth law i ddarparu cyngor ynglŷn â'r ffordd i fynd i mewn ac allan o gerbydau, a'r modd gorau o gefnogi pobl.

Awgrymodd Aelod, lle'r oedd gofal un i un, gallai fod yn fanteisiol bod dau berson yno i roi cymorth ychwanegol.

Holodd Aelod beth fyddai'r canlyniad petai'r cais am gyllid yn aflwyddiannus. Mewn ymateb clywsom na fyddai'r cynllun yn gallu parhau yn yr un ffordd, gan y byddai'r cynllun yn cyflogi staff a heb gydlynwyr prosiect ni fyddai'n bosibl cwrdd â'r gwirfoddolwyr na'u cefnogi. Roedd y cynllun yn edrych ar y ffordd i gefnogi grwpiau cymdeithasol a oedd yn bodoli eisoes pe na bai'r nawdd yn cael ei gymeradwyo, ac a allai asiantaethau eraill fabwysiadu'r perthnasau un i un. Gobeithid derbyn cyllid drwy'r Gronfa Ofal Annibynnol. Nodwyd bod y cais am gyllid o £250,000, dros gyfnod o ddwy flynedd, a byddai'n cyflogi pedwar aelod o staff.

Holodd Aelod a oedd sefydliadau eraill tebyg ar draws Lloegr a Chymru, y gallem gysylltu â hwy. Clywsom fod cyswllt gyda sefydliadau eraill, ac roedd 22 o gynlluniau tebyg, ar draws Cymru, yn bennaf dan elusennau mawr cenedlaethol. Roedd diddordeb cynyddol pendant mewn cyfeillachu.

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 26ain Ebrill, 2016 at 10.00 am

Nodwyd bod unigrwydd ac ynysu wedi cael effaith enfawr ar iechyd ac fe'i cyfrifid ar yr un lefel ag ysmygu a gordewdra.

Nododd Aelodau bryderon, gydag anogaeth byw'n annibynnol, po fwyaf y gwasanaeth cyfeillachu, mwyaf llesol y gwasanaeth. Yn y tymor hir, byddai'r cynllun yn gyfrwng lliniaru achosion iechyd meddwl arbennig.

Ychwanegodd y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol ac Iechyd fod yr Awdurdod yn gweld cyfeillachu fel rhan o agwedd gyflawn o gwmpas cydgysylltu cymunedol yn symud i mewn i rywbeth yn seiliedig ar leoliad. Gallai fod ychydig wahaniaeth mewn gwahanol gymunedau yn dibynnu ar yr adnoddau, y capasiti o gwmpas gwirfoddoli, a'r cysyniad o fod yn greadigol o gwmpas adnoddau. Hefyd yr angen i edrych ar nawdd ariannol penodol i fwyhau'r adnodd i mewn i'r Sir, a chyfleoedd a sianelir gan y bwrdd iechyd. Roedd cynigion yn eu lle ac fe roddid gwybod ymhen mis a oedd y cais yn llwyddiannus. Roedd yr elfen allweddol arall o gwmpas gofal sylfaenol a chymryd mantais o bartneriaethau gyda Meddygon Teulu ac eraill o fewn y rhwydwaith gofal cymdogaeth.

Holwyd, petai'r cais am gyllid yn aflwyddiannus, faint fyddem ni'n ei golli wrth beidio â chael parhad y gwasanaeth. Mewn ymateb, clywsom pa mor bwysig oedd cyfeillachu, ac fel mae'n chwarae rhan fawr mewn cadw pobl yn iach ac yn hapus. Roedd yn anodd darparu dadansoddiad o gostau'r buddiant.

Clywsom fod gwasanaeth cyfeillachu ar y ffôn a hwnnw'n wasanaeth anffurfiol.

Mynegodd y Cadeirydd fod rhai bylchau difrifol i'w hystyried. Ar draws Sir Fynwy'n gyfan gwbl, roedd elfennau na chawsant eu crybwyll. Nodwyd nad oedd y Pencampwr Personau Hŷn, y Cynghorydd Sir G Burrows, yn gallu bod yn bresennol heddiw, ond roedd hefyd Gydgysylltydd Personau Hŷn i fod, a ymddangosai'n safle gwag. Mae clytwaith o gwmpas sefydliadau allweddol a oedd yn rhan o'r isadeiledd, megis Gweithredu 50+, yn gryf mewn rhai mannau ond nid ar draws y sir. Fel Cyngor Sir mae angen i ni wneud llawer yn well ar lefel strategol.

Mynegodd y Cadeirydd y byddai'n argymell bod y Cyngor Sir yn mabwysiadu agwedd gryfach ar draws y Sir am nifer o resymau, un i sicrhau na chawsai un rhan o'r Sir ei hesgeuluso. Roedd yn bwysig cydnabod y materion o gwmpas cyllido, a holwyd a ddylai'r Cyngor Sir ystyried gwneud buddsoddiad mwy pendant. Gyda llawer o gryfderau mewn meysydd gwahanol, dylid trosi'r rhain yn fodel strategol.

Eglurodd swyddogion eu bod yn defnyddio'r Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant fel y grym mewn llesiant yn ei ystyr ehangach, ac edrych fel i weithredu dyheadau'r Ddeddf.

Diolchodd y Cadeirydd i Miranda Thomson a'r swyddogion am y drafodaeth ysbrydoledig gan gydnabod y gwaith ardderchog.

5. **<u>I adolygu y Polisi Rhaniadau Tai</u>**

**<u>Cyd-destun:</u>**

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 26ain Ebrill, 2016 at 10.00 am**

Derbyniasom adroddiad oddi wrth Reolwr y Sector Tai Preifat er mwyn i Aelodau ystyried y gwelliant arfaethedig i'r polisi dyrannu cyffredin rhwng y Cyngor a Sir Fynwy, Cymdeithasau Tai Melin a Siartr.

**Materion Allweddol:**

Er nad oedd bellach yn berchen unrhyw stoc dai, mae'r Cyngor yn dal i gadw cyfrifoldeb statudol ar gyfer dynodi'n strategol yr angen am dai ac arwain ar yr holl gamau gweithredu lleol i ymateb yn effeithiol i'r angen hwn. Parthed hyn, mae'r Gofrestr Dai (Sir Fynwy) yn dal yn gyfrifoldeb cyfreithiol y Cyngor.

**Craffu Aelodau:**

Gwnaeth Aelod sylw bod gwaith amaethyddol fynychaf yn cael ei wneud gan beiriannau, ac roedd mwy o reswm y byddai ffermwyr llaeth angen tai yn nes i'r fferm, a allai fod yn rheswm am lai o angen heddiw i ailgartrefu gweithwyr amaethyddol.

Cwestiynwyd, am fod y polisi wedi cael ei gymeradwyo gan y cymdeithasau tai lleol perthnasol, a oedd unrhyw fewnbwn ychwanegol yn angenrheidiol. Cynghorodd y Cadeirydd ein bod yn derbyn yr adroddiad at ddibenion cynghorol.

Nodwyd bod aelodau'r Pwyllgor dan anfantais am nad oeddent wedi derbyn yr atodiadau gyda'r agenda. Cytunodd y Pwyllgor, lle'r oedd gwybodaeth ychwanegol yn angenrheidiol, gadawyd hyn i'r Cadeirydd.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan Aelod, clywsom yng nghyd-destun ffoaduriaid o Syria y gofynnwyd i Gyngor Sir Fynwy glustnodi eiddo i deulu y disgwylid iddo gyrraedd ym Mehefin neu yng Ngorffennaf. Mae CSF wedi cytuno i gartrefu 20 teulu dros 20 mlynedd.

Holodd Aelod fel y gellid mynd i'r afael â rhenti uchel yn y sector preifat. Eglurodd y swyddogion, yn y newidiadau arfaethedig i'r polisi dyrannu, lle'r oedd pobl yn gweithio ond yn ymdrechu i gael dau ben llinyn ynghyd, roedd yn bosib hawlio taliad tai dewisol, a symud i fand 3, angen canolig o ran tai. Ychwanegodd y Rheolwr Tai ac Adfywio mai rhan o gyfrifoldeb y tîm Tai Sector Preifat newydd fyddai cyrraedd sefyllfa i allu dynodi tai preifat ar gyfer ymgeiswyr ar y rhestr aros ynghyd ag ymgeiswyr digartref.

Clywsom y byddai sesiwn galw heibio ar Fai 10fed 2016 lle gwahoddid landlordiaid i fynychu er mwyn cwrdd â'r tîm a derbyn gwybodaeth ynghylch gofynion trwyddedu.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch eiddo gaiff eu gosod yn breifat clywsom ei bod yn anodd dweud a fu cynnydd neu ostyngiad ond roedd y farchnad rhenti'n ymddangos fel petaent yn parhau i godi, a brofodd yn sialens i'r tîm. Roedd brwydr barhaus i ddynodi eiddo, ac nid oedd digon i gefnogi'n dyletswyddau.

Eglurodd y swyddogion y cymhellwyd landlordiaid a oedd yn gosod tai'n breifat i ddefnyddio'n gwasanaethau yn hytrach nag asiantiaid lleol drwy gynnig ystod eang o wasanaethau atodol, megis staff unigol profiadol, nifer o gronfeydd cyllido a chymorth tai. Roedd swyddogion yn eiddgar i ddatblygu gwasanaethau newydd yn ôl yr angen.

Gyda chyflwyno trwyddedu gallai fod cyfle i Gyngor Sir Fynwy gyflwyno cyrsiau, ond nid oedd hyn wedi'i drafod hyd yn hyn. Darparwyd cyrsiau ar hyn o bryd drwy Rent Smart Wales ynghyd â darparwyr eraill.

Mynegodd Aelod y dylai'r Cabinet sicrhau bod yr holl Aelodau'n ymwybodol o'r newidiadau mewn polisi ac awgrymodd y byddai seminar yn ddefnyddiol.

Tynnodd Aelod sylw at y ffaith bod gweithgor wedi bodoli yn y gorffennol yn edrych am dai gwag yn y Sir, a holodd a oedd datblygiad pellach yn y maes hwn. Eglurodd y swyddogion fod y gwaith tai gwag yn parhau, ond bod anawsterau o gwmpas niferoedd y staff. Gweithiai'r swyddogion yn agos gyda chydweithwyr y Dreth Gyngor i ddynodi eiddo o'r fath, a chysylltid â hwy drwy gyfrwng ymgyrch bostio ddwywaith y flwyddyn. Yng nghyd-destun ysgogiadau i berchnogion tai gwag gallai CSF gynnig cyfleuster benthyca, ond nid oedd y cyfleuster hwn wedi profi'n boblogaidd.

**Argymhellion:**

Argymhellodd yr adroddiad fod y Pwyllgor Dethol Oedolion yn ystyried y cynigion a amlinellwyd yn yr adroddiad i addasu'r polisi a gwneud argymhellion i Gabinet y Cyngor fel y byddai'n briodol.

| **Casgliad y Pwyllgor:**<br><br>Casglodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Dethol oedolion o blaid argymell y polisi i'r Cabinet ond yn argymell bod y Cabinet yn cynnal Seminar Aelodau er mwyn lledu'r wybodaeth. |
|---|

6. **I ystyried y Canllawiau Archwilio wedi ei gynghyrchu gan y Comisiynydd Pobl Hŷn ar gyfer:**

**Cyd-destun:**

Derbyniasom adroddiad oddi wrth y Rheolwr Craffu er mwyn ystyried y cyfarwyddyd i Graffu a gynhyrchwyd gan y Comisiynydd Pobl Hŷn parthed Newidiadau Craffu i Wasanaethau Cymunedol a Chydraddoldebau Craffu ac Asesiadau Effaith ar Hawliau Dynol.

**Materion Allweddol:**

Mae'r Comisiynydd Pobl hŷn wedi ysgrifennu i awdurdodau lleol i gyflwyno'r gwaith a gynhaliwyd i gynhyrchu cyfarwyddyd i Gynghorau ar y modd i graffu Newidiadau i Wasanaethau Cymunedol ac 'Asesiadau Effaith Cydraddoldebau a Hawliau Dynol'.

Mae'r Comisiynydd yn cydnabod y bydd amserau ariannol heriol yn gosod penderfyniadau anodd i Gynghorau ynghylch y modd i ddarparu ar gyfer ein cymunedau wasanaethau o ansawdd sy'n hygyrch yn lleol ac mae wedi cynhyrchu cyfarwyddyd i grafwyr llywodraeth leol i'w cynorthwyo wrth ystyried penderfyniadau allweddol a pholisïau sy'n effeithio ar bobl hŷn. Mae'r cyfarwyddyd yn argymell yr angen i ystyried yn ofalus oblygiadau penderfyniadau er mwyn amddiffyn pobl fwyaf bregus cymdeithas.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 26ain Ebrill, 2016 at 10.00 am**

Mae'r cyfarwyddyd yn darparu amlinelliad defnyddiol i grafwyr yn y modd y gellir cymhwyso egwyddorion 'Asesiadau Effaith Cydraddoldebau a Hawliau Dynol' i benderfyniadau a pholisïau sy'n effeithio ar bobl hŷn, o ystyried y boblogaeth gynyddol sy'n heneiddio.

Gallai Aelodau Craffu ddymuno ystyried fel y gallant blannu egwyddorion o'r fath i mewn i'w dull o graffu; o bosib drwy ddatblygu strategaeth gwestiynu i'w chymhwyso i graffu testunau perthnasol, neu drwy ystyried cadernid 'Asesiadau Effaith Cydraddoldebau a Hawliau Dynol' ynghyd â dilysrwydd tystiolaeth mewn asesiadau o'r fath i gefnogi gwneud-penderfyniadau.

**Craffu Aelodau:**

Tynnodd y Cadeirydd sylw at y cyfle, nid yn unig i ymateb, ond y potensial i hybu ac annog, ac awgrymodd y dylai Aelodau oedi a meddwl a yw'r cwestiynau a osodwyd yn gwneud synnwyr, ac a oedd yr asesiadau a wnaed yn ateb y diben.

Tra gallai'r cyfarwyddyd gymryd yn ganiataol bod gan bob awdurdod Gydgysylltydd Strategaeth Pobl Hŷn, nid dyma'r sefyllfa o angenrheidrwydd. Mynegodd yr Aelodau bryder, heb Gydgysylltydd penodol, gallai fod llai o gyfle i sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi ar y modd y mae polisïau a phenderfyniadau'n effeithio ar bobl hŷn. Cynghorodd y Cadeirydd bod angen i'r broses graffu, felly, sicrhau ei bod yn hyrwyddo hawliau pobl hŷn wrth graffu penderfyniadau a pholisïau.

Eglurodd y Rheolwr Craffu y byddai cyfarfod o'r Pwyllgor Dethol Cymunedau Cryf ac Oedolion yn mynd i'r afael â thrafodaethau â phartneriaid. Awgrymwyd rhoi yn y dyddiadur gyfarfod yn y dyfodol i ystyried rôl y gwahanol bartneriaethau ac fel cânt eu cydgysylltu.

Y casgliad cyffredinol oedd bod angen i asesiadau fod yn fwy cadarn a bod angen eu craffu'n well. Yng nghyd-destun asesiadau, awgrymodd y swyddog Polisi dros Gydraddoldeb, wrth ystyried penderfyniadau, gallai crafwyr ddymuno ystyried pwy mae'r penderfyniad yn eu heffeithio a'r dystiolaeth sy'n cefnogi a oes goblygiadau cadarnhaol neu negyddol i bobl hŷn. Gallai Aelodau ystyried ar ba gyfnod yr ymgynghorwyd â gwahanol grwpiau a defnyddwyr gwasanaeth. Gallai fod cwestiynau mwy manwl yn ogystal ynghylch nodau'r cynnig. Byddai hyn yn gymorth i gyflawni craffu mwy deallus. Byddai'r Rheolwr Craffu yn edrych ar greu templed a dod ag ef i gyfarfod yn y dyfodol.

Awgrymodd y Rheolwr Craffu y gallai'r Pwyllgor mewn rhai achosion, ystyried craffu ôl-weithredol i weld a oedd y goblygiadau a ragwelwyd ar rai grwpiau wedi digwydd mewn gwirionedd ac fel y gellid lleihau'r rhain. Cynghorodd y Swyddog Polisi dros Gydraddoldeb, wedi delio ag Asesiadau Effaith ar Ansawdd Cydraddoldeb, roedd yr asesiadau wedi bod yn llwyddiannus o ganlyniad i ddiffyg gwybodaeth. Tra roedd swyddogion wedi tueddu i lenwi'r ffurflenni ar y funud olaf, fe'u hanogwyd i feddwl am y cwestiynau ar gychwyn y broses ac o ganlyniad roedd asesiadau'n gwella. Daliodd diffyg data y gellid rhagweld goblygiadau o edrych arnynt yn broblem ac nid oedd yn gwella mor gyflym ag y dylai.

Codwyd cwestiwn ynghylch y modd y cymhwyswyd yr AEACau i oblygiadau anstatudol, yn arbennig, os trosglwyddwyd gwasanaethau i Gynghorau Tref a Chymuned. Cytunodd y Swyddog Polisi Cydraddoldeb y dylai gwasanaethau statudol ac anstatudol ddal i ddilyn yr un broses AEAC ac y dylid trafod y goblygiadau cyn y penderfyniad i drosglwyddo gwasanaethau.

Cwestiynodd y Cadeirydd achosion lle cymerwyd penderfyniad i gynnig gwasanaeth i Gyngor Tref neu Gymuned sydd wedyn yn gwrthod y trosglwyddiad gwasanaeth, proses yr AEAC~ Cytunwyd y dylid trafod hyn gyda'r Pennaeth Cyfreithiol.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 26ain Ebrill, 2016 at 10.00 am**

**Argymhellion:**

Argymhellodd yr adroddiad fod y Pwyllgor:

i. Yn dod i gasgliad ffurfiol i'w gynnwys yn ymateb y Cyngor i'r Comisiynydd Pobl Hŷn;
ii. Yn ystyried fel y gall blannu'r egwyddorion ym mhob papur cyfarwyddyd i mewn i arfer craffu; naill ai drwy graffu'r 'Asesiadau Effaith ar Ansawdd Cydraddoldeb', neu drwy linellau cwestiynu a/neu weithgarwch craffu arall.

**Casgliad y Pwyllgor:**

Casglodd y Cadeirydd fod angen i unrhyw graffu ar benderfyniadau a pholisïau gael cyd-destun a bod templedau'r AEAC yn gymorth i ddarparu'r cyd-destun hwnnw. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o sawl pwynt allweddol a godwyd yn y drafodaeth y mae'r Aelodau wedi cytuno ffordd ymlaen ar ei chyfer:

- Gallai craffu ôl-weithredol o benderfyniadau allweddol ddigwydd os oedd gan y Pwyllgor bryder ynghylch goblygiadau ar gyfer grwpiau penodol ar bwynt gwneud penderfyniad /polisi'n cael ei fabwysiadu
- Mae angen rhestr Ymgynghori sengl ar gyfer Sir Fynwy a byddai gofyn i'r Tîm-Cyfathrebu gynghori ar hyn
- Mae angen i'r Gwasanaethau Cyfreithiol egluro'r broses ar gyfer AEACau pan drosglwyddir gwasanaethau i sefydliadau eraill
- Gwahoddid y Comisiynydd Personau Hŷn i fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor a darparu hyfforddiant ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau
- Gwahoddid y Tîm Polisi a Phartneriaethau i bwyllgor i drafod partneriaethau mewn Gwasanaethau Oedolion a rhwydwaith y gefnogaeth ar gyfer pobl hŷn.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am drafodaeth ddefnyddiol a chynhyrchiol ar faes pwysig o waith i'r pwyllgor.

**7. Rhaglen Waith Pwyllgor Dethol Oedolion**

Derbyniasom y rhaglen waith i'r dyfodol ar gyfer y Pwyllgor Dethol Oedolion. Wrth wneud hynny, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Cyfarfod arbennig i'w gynnal ar ddydd Mawrth 17eg Mai 2016 am 10.00am i drafod Strategaeth Ofalwyr Sir Fynwy. Rhoddodd y Cynghorydd Sir R. Edwards ymddiheuriadau rhag blaen.
- Cyfarfod ar y cyd i'w arwain gan y Pwyllgor Dethol Pobl Ifanc i'w gynnal ar ddydd Iau 19eg Mai 2016 am 10.00am i drafod craffu partneriaeth. Rhoddodd y Cynghorydd Sir R. Edwards ymddiheuriadau rhag blaen.

**The meeting ended at 1.05 pm**